# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 21AIN MEDI, 2026**

***I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 11 Medi 2026)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Meryl Roberts

Arwyn Herald Roberts
Annwen Hughes
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Gwilym Evans

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood

Angela Russell
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain o Fehefin 2026 fel rhai cywir

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 22-06-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen yn gadeirydd ar gyfer 2026/2027

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts yn is-gadeirydd ar gyfer 2026/2027

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Tudor Jones, Meryl Roberts, a John Brynmor Hughes

Y Cynghorydd Anwen Davies yn cael problemau gyda chyfarpar technoleg ac felly ddim wedi gallu mynychu'r cyfarfod

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 9fed o Fawrth 2026 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 20/03/2026 a 27/04/2026

## 8. ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r Datganiad Polisi Hapchwarae drafft cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. Eglurwyd, pe byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad bydd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gynnal am 12 wythnos gyda chyfrifoldeb ar yr Awdurdod Trwyddedu i roi sylw i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd, gyda chais i'r Pwyllgor ystyried unrhyw newidiadau posib oedd wedi deillio o'r ymgynghoriad.  Ategwyd y bydd angen i'r Pwyllgor gytuno ar ddrafft terfynol o'r Datganiad Polisi Hapchware, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu (yn unol ag Adran 154 Deddf Hapchwarae 2025).

Rhoddwyd ychydig o gefndir dibenion Deddf Hapchwarae 2025 gan gyfeirio at dri amcan trwyddedu'r Ddeddf ynghyd a'r gofyn i Awdurdodau Trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion Trwyddedu y maent yn dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau, bob tair blynedd.

Eglurwyd bod y Datganiad Polisi Hapchwarae cyfredol wedi bod yn destun gwelliannau sylweddol yn 2018 ac ers hynny wedi cael ei adolygu yn unol â 'Chanllaw'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol' a gyhoeddwyd yn 2021 ac a ddiwygiwyd yn 2025.

Adroddwyd bod adolygiad i'r Polisi draft wedi ei wneud mewn ymgynghoriad â Grŵp Trwyddedu Gogledd Cymru gyda'r nod o gael cysondeb mewn ymdriniaeth ledled y rhanbarth. Ategwyd bod mewnbwn hefyd wedi ei dderbyn gan Swyddogion Cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, oherwydd pwysigrwydd cynyddol effeithiau gamblo niweidiol ar iechyd cyhoeddus.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor, yn unol â Deddf Hapchwarae 2005, ystyried y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft gan ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r newidiadau sydd rhwng y polisi presennol a'r polisi drafft nodwyd, yn dilyn derbyn cyngor ar faterion polisi a materion gweithredol gan y Comisiwn Gamblo, mai mân newidiadau yn unig oedd i'r polisi drafft, ond bod pwyslais wedi ei roi ar effaith gamblo ar iechyd meddwl unigolion bregus a'u teuluoedd. Ategwyd bod tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atgyfnerthu'r effeithiau hyn.

Mewn ymateb i sylw am bryder gor-hysbysu gamblo ar y we a chwestiwn ynglŷn â phwy oedd a chyfrifoldeb dros ei reoleiddio'n effeithiol, nodwyd, er yn rhannu'r pryderon, bod y mater yn cael ei reoli gan y Comisiwn Hapchwarae Cenedlaethol.

Cynigiwyd ac eiliwyd, yn unol â Deddf Hapchwarae 2005, gymeradwyo'r Datganiad Polisi Hapchwarae drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol â Deddf Hapchwarae 2005**
- **Cymeradwyo'r datganiad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 10:55am